Nursing & Midwifery Council

# Hybu gofal diogel, effeithiol a charedig

# Ein gwaith yn 2019–2020



# Amdanom ni

Ein gweledigaeth yw nyrsio a bydwreigiaeth diogel, effeithiol a charedig sy'n gwella iechyd a llesiant pawb. Fel rheoleiddiwr proffesiynol mwy na 700,000 o weithwyr proffesiynol ym maes nyrsio a bydwreigiaeth, mae gennym rôl bwysig i'w chwarae er mwyn gwireddu hyn.



Ein rôl graidd yw **rheoleiddio**. Rydym yn hyrwyddo safonau proffesiynol uchel ar gyfer nyrsys a bydwragedd ledled y DU, a chymdeithion nyrsio yn Lloegr. Rydym yn cynnal y gofrestr o weithwyr proffesiynol sy'n gymwys i ymarfer. Ac, rydym yn camu i mewn i ymchwilio pan fydd gofal yn mynd o chwith – rhywbeth sy'n effeithio ar lai nag un y cant o weithwyr proffesiynol.

> "Ein gweledigaeth yw nyrsio a bydwreigiaeth diogel, effeithiol a charedig sy'n gwella iechyd a llesiant pawb"

Nursing & Midwifery Council



> Cynyddu ein gweladwyedd fel bod pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys ac wedi'u grymuso i lywio ein gwaith

Er mwyn rheoleiddio'n dda, rydym yn **cefnogi** ein proffesiynau a'r cyhoedd. Rydym yn creu adnoddau a chanllawiau sy'n ddefnyddiol drwy gydol gyrfaoedd pobl, gan eu helpu i gyflawni ein safonau wrth ymarfer a mynd i'r afael â heriau newydd. Rydym hefyd yn cefnogi pobl sy'n rhan o'n hymchwiliadau, ac rydym yn cynyddu ein gweladwyedd fel bod pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys ac wedi'u grymuso i lywio ein gwaith.

Mae rheoleiddio a chefnogi ein proffesiynau yn caniatáu i ni **ddylanwadu** ar iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn rhannu deallusrwydd o'n gweithgareddau rheoleiddio ac yn gweithio gyda'n partneriaid i gefnogi gwaith cynllunio'r gweithlu a gwneud penderfyniadau ledled y sector. Rydym yn defnyddio ein llais i siarad am amgylchedd gwaith iach a chynhwysol ar gyfer ein proffesiynau.

# Ein cofrestr mewn rhifau

**Ar 31 Mawrth 2020, roedd cyfanswm o 716,607 o bobl ar ein cofrestr.**

**669,854**
o nyrsys

**37,918**
o fydwragedd

**7,142**
o unigolion â chofrestriad deuol

**1,693**
o gymdeithion nyrsio

**Roedd 8,129** o bobl ychwanegol ar ein cofrestr Covid-19 dros dro

## Mae ein cofrestr yn amrywiol iawn

**Daw 20%** o'n gweithwyr proffesiynol o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig

**Mae gan 4%** o weithwyr proffesiynol anabledd

**Dywedodd 4,484** (0.6%) o'n gweithwyr proffesiynol nad yw eu hunaniaeth rhywedd yn cyfateb i'w rhyw a gofrestrwyd adeg eu geni

**Mae 0.9%** o unigolion â chofrestriad deuol yn nodi eu bod yn wrywaidd

**Mae 11.4%** o nyrsys yn nodi eu bod yn wrywaidd

**Mae 0.3%** o fydwragedd y nodi eu bod yn wrywaidd

**Mae 13.1%** o gymdeithion nyrsio yn nodi eu bod yn wrywaidd

# Ein heffaith mewn niferoedd

**Rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020 gwnaethom brosesu 38,227 o geisiadau gan bobl a oedd yn gwneud cais i ymuno â'n cofrestr am y tro cyntaf.**

Gwnaethom gwblhau mwy na

**97%**

o geisiadau am gofrestriad cychwynol o'r DU o fewn un diwrnod

(ein targed oedd 97%)

Cwblhawyd

**99.9%**

o gofrestriadau o dramor a 99.8% o geisiadau o'r UE y naill o fewn ein nod o 60 diwrnod a'r llall o fewn ein nod o 30 diwrnod

(ein targed oedd 90%)

**Gwnaethom lansio proses ailymuno newydd**

sy'n golygu y gall cofrestreion o'r DU bellach ailymuno â'n rhestr o fewn 60 munud

## Ailddilysu

Yn 2019–2020

cafodd

**211,588**

o weithwyr proffesiynol yn y DU eu hailddilysu

Mae'r ffigwr hwn ychydig yn is na'r

**95%**

o'r rhai a oedd i fod i gael eu hailddilysu – yn debyg i'r blynyddoedd blaenorol

Mae'r cyfraddau hyn yn gyson ym mhob un o bedair gwlad DU, ac yn berthnasol i bob math o gofrestriad

## Addasrwydd i ymarfer mewn niferoedd 2019–2020

Gwnaethom dderbyn

**5,704**

**o bryderon newydd am nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio**

(6% yn fwy na'r llynedd.)

Cawsom fod

**2,981**

**o achosion**

**yn rhai nad oedd angen i ni ymchwilio iddynt**

(64% o'r atgyfeiriadau a dderbyniwyd gennym.)

**Gorchmynion interim**

**gall ein paneli osod cyfyngiadau dros dro ar hawl unigolyn i ymarfer neu waharddiadau wrth i'n hymchwiliadau fynd rhagddynt. Digwyddodd hyn mewn**

**561**

**o achosion y flwyddyn hon**

(2018–2019: 506)

Yn 2019–2020

cwblhawyd

**1,405**

**o ymchwiliadau**

## Addasrwydd i ymarfer mewn niferoedd 2019–2020 – parhad

nid oedd angen cymryd unrhyw gamau gweithredu pellach mewn **812** o achosion

Gwnaethom atgyfeirio **534** o achosion i'n paneli annibynnol


Gwnaethom roi cyngor, rhoi rhybudd neu gytuno ar fesurau a fyddai'n mynd i'r afael â'r broblem mewn **59** o achosion

Dim ond **127** o bobl a aeth drwy ein proses addasrwydd i ymarfer a ddilëwyd o'r gofrestr yn 2019–20

Dilëwyd **31** 31 o bobl ychwanegol o'r gofrestr yn wirfoddol

At ei gilydd mae hyn yn 0.02% o gyfanswm y nifer ar ein cofrestr.

## Gwnaethom gyflawni ein targedau perfformiad addasrwydd i ymarfer:



Gwnaethom roi **81%** y cant o orchmynion interim o fewn **28 diwrnod** ar ôl i bryderon gael eu codi gyda ni (2018–2019: 84 y cant)

Gwnaethom gwblhau **81%** o'n hachosion o fewn **15 mis** (2018–2019: 86 y cant)

## Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant


**Roedd 6.6%**
o'r holl atgyfeiriadau bydwragedd yn rhai ar gyfer pobl o ethnigrwydd du Affricanaidd
(2.2% o'r gofrestr)

**Roedd 13.3%**
o'r holl atgyfeiriadau nyrsys yn rhai ar gyfer pobl o grŵp ethnig du Affricanaidd
(7% o'r gofrestr)



**Mae 21.4%**
o'r pryderon newydd am ddynion

er mai dim ond 10.7% o'r gofrestr sy'n ddynion




## Pobl yn yr NMC

Gostyngodd ein trosiant cyflogeion i
**13.5%**
o 21.6% yn y flwyddyn flaenorol

Gostyngodd y nifer o aelodau newydd a adawodd o fewn chwe mis i
**12.7%**
Roedd hyn i lawr o 19.6% o'r flwyddyn flaenorol

# Yr hyn y gwnaethom ei wario yn 2019–20

**Ein hincwm oedd £89.8 miliwn. Gwnaethom wario £82.3 miliwn. Dengys y diagram isod ddadansoddiad o'r ffordd y gwariwyd yr arian hwn.**




Rydym yn cyhoeddi'r hyn rydym wedi'i wario mewn blynyddoedd blaenorol yma:
www.nmc.org.uk/reports-and-accounts

# Beth y gwnaethom ei gyflawni

Gwnaethom gynydd anferth yn 2019–2020 drwy gydweithio â'r bobl ar ein cofrestr, ein partneriaid, y cyhoedd a chydweithwyr yn NMC.

## Ein strategaeth newydd

Ar ddiwedd y flwyddyn, cymeradwyodd y Cyngor ein strategaeth uchelgeisiol ar gyfer 2020–25. Mae'n nodi ein gweledigaeth a'n diben, ein rôl a'r gwerthoedd a fydd yn sail i'n gwaith.

Roedd miloedd o bobl yn rhan o'r broses o lunio ein strategaeth, a fydd yn ein helpu i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau nyrsio a bydwreigiaeth ardderchog.

> “Ein diben yw: Hybu a chadw'r safonau proffesiynol uchaf o ran nyrsio a bydwreigiaeth er mwyn diogelu'r cyhoedd ac ennyn hyder yn y proffesiwn”

## Bydwraig y dyfodol

Ym mis Ionawr lansiwyd ein safonau bydwreigiaeth trawsnewidiol newydd, a gymerodd ddwy flynedd i'w llunio. Safonau hyfedredd newydd ar gyfer bydwragedd a safonau ar gyfer rhaglenni bydwreigiaeth cyn cofrestru yw'r rhain. Byddant yn helpu i sicrhau bod menywod, babanod a theuluoedd yn cael y gofal gorau a mwyaf diogel posibl.

## Cefnogi'r proffesiynau

Gwnaethom amlygu'r gwaith anhygoel y mae nyrsys yn ei wneud wrth i ni nodi 100 mlynedd o gofrestru nyrsys ym mis Rhagfyr. Roedd ein dathliad 'Always caring, always nursing' yn cynnwys digwyddiad ar gyfer nyrsys a chystadleuaeth bathodyn coffa.

Mae 2020 yn nodi 'Blwyddyn y nyrs a'r fydwraig'. Tra bod nifer o ddigwyddiadau wedi'u canslo oherwydd Covid-19, rydym yn parhau i ddathlu'r gweithlu nyrsio a bydwreigiaeth a hybu rôl hanfodol y proffesiynau.

## Ein dull gweithredu newydd mewn perthynas ag addasrwydd i ymarfer

Rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio ar unigolion o ran rheoleiddio. Rydym am annog diwylliant o fod yn agored a dysgu, gan roi cyfle i weithwyr proffesiynol ddatrys unrhyw bryderon.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gwneud hyd yn oed mwy o welliannau i'n proses addasrwydd i ymarfer, yn cynnwys lansio llinell gymorth gyfrinachol am ddim i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio sydd angen cymorth emosiynol.

Gwnaethom gomisiynu gwaith ymchwil i'r ffordd y byddem yn defnyddio datganiadau profiad mewn ymchwiliadau. Rhoddodd hyn ddealltwriaeth ddefnyddiol i ni a byddwn yn dechrau gwneud newidiadau hyddysg eleni.

> Yn 2019–2020 y cyfarfu ein Gwasanaeth Cymorth Cyhoeddus â mwy na 150 o bobl a oedd angen cymorth

## Gweithio gyda chyflogwyr

Rydym yn annog pobl i geisio datrys unrhyw bryderon yn lleol i ddechrau, gan leihau'r angen i gymryd camau rheoleiddio i'r pryderon mwyaf difrifol yn unig. Gwnaethom gydweithio'n agos â chyflogwyr i ddatblygu canllawiau newydd i'w helpu i ddeall pryd y dylent atgyfeirio materion ymlaen atom.

## Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth y gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr, ein cydweithwyr a'r gymdeithas ehangach rydym yn ei gwasanaethu.

Ym mis Gorffennaf 2019, ni oedd y rheoleiddiwr gofal iechyd proffesiynol cyntaf i gofrestru i gymryd rhan yn ymgyrch **'Ask Listen Do'** NHS England. Mae'r ymgyrch hon yn ei gwneud yn haws i bobl ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth sicrhau y caiff eu lleisiau eu clywed a gwella'r ffordd rydym yn gwrando ar gwynion a gweithredu arnynt.

Gwnaethom hefyd wella ein gwaith monitro amrywiaeth a gwnaethom ddechrau ar ddarn newydd o waith **ymchwil yn ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant**, er mwyn deall yn well sut mae nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio sydd â nodweddion gwarchodedig gwahanol yn cael profiad o'n prosesau ac amlygu unrhyw anghydraddoldebau. Ein bwriad yw cyhoeddi'r gwaith ymchwil hwn yn ddiweddarach yn 2020.

## Moderneiddio ein technoleg

Mae ein rhaglen i foderneiddio ein systemau TG wedi dod â buddiannau gwirioneddol i'n cydweithwyr, nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio.

Mae ein proses newydd ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n ymuno â'n cofrestr o dramor wedi sicrhau, i'r rhai hynny sydd â'r profiad a'r galluoedd cywir, bod y broses yn un gyflym, trylwyr ac effeithlon.

Rydym wedi gwella'r dechnoleg y mae ein cydweithwyr yn ei defnyddio i gwblhau eu gwaith. Roedd hyn yn hynod fuddiol pan fu angen i bawb weithio o gartref yn gyflym o ganlyniad i Covid-19.

## Ymateb i Covid-19

Daeth y flwyddyn i ben wrth i sefyllfa Covid-19 ddechrau datblygu. Mewn ychydig wythnosau, gwnaethom symud pob un o'n cydweithwyr i'w cartrefi, sefydlu cofrestr frys dros dro, newid ein dulliau o weithio ac atgyfnerthu ein cydweithredu â'n partneriaid a'n gweithwyr proffesiynol. Ni fyddai hyn wedi bod yn bosibl heb y gwaith paratoi a wnaed yn yr 11 mis blaenorol.

Bydd effaith y coronafeirws yn para am beth amser. Fodd bynnag, mae ein strategaeth newydd yn rhoi sylfaen cadarn i ni allu rheoli'r heriau sydd o'n blaenau. A thrwy weithio mewn ffordd sy'n garedig, yn deg, yn gydweithredol ac yn uchelgeisiol, rydym yn hyderus y byddwn yn parhau i ddod yn NMC gwell.

Nursing & Midwifery Council

**www.nmc.org.uk**

Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1091434) ac yn yr Alban (SC038362).